

2017 Rhif (Cy.)

2017 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A5
(Ffordd Caergybi, Pentre-du,
Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol
Conwy) (Gwahardd Aros) 2017

The A5 Trunk Road (Holyhead
Road, Pentre Du, Betws-y-coed,
Conwy County Borough)
(Prohibition of Waiting) Order
2017

Gwnaed 18 Gorffennaf 2017

Made 18 July 2017

Yn dod i rym 21 Gorffennaf 2017

Coming into force 21 July 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A5 o Lundain i Gaergybi, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A5 London to Holyhead Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and (2) and 4(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of North Wales Police, make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Gorffennaf 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffordd Caergybi, Pentre-du, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Aros) 2017.

1. This Order comes into force on 21 July 2017 and its title is The A5 Trunk Road (Holyhead Road, Pentre Du, Betws-y-coed, Conwy County Borough) (Prohibition of Waiting) Order 2017.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

mae i “bathodyn person anabl” (“*disabled person’s badge*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(2);

“disabled person’s badge” (“*bathodyn person anabl*”) has the meaning given in regulation 2(1) of the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000(2);

mae i “disg parcio” (“*parking disc*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(3);

“parking disc” (“*disg parcio*”) has the meaning given in regulation 8(5) of the Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000(3);

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(2) O.S. 2000/1786 (Cy.123) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2014/3082. Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(3) O. S. 2000/1785 (Cy.122)

(1) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c.25). By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
(2) S.I. 2000/1786 (W.123), amended by S.I.2014/3082. There are other amending instruments but none is relevant.
(3) S.I. 2000/1785 (W.122)

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o gefnffordd yr A5 o Lundain i Gaerdybi ym Mhentredu, Betws-y-coed sy’n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gethin hyd at bwynt 43 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno;

mae i “safle perthnasol” (“*relevant position*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 4 o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000.

Gwahardd Aros

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochr ddeheuol y gefnffordd.

Esemptiadau

4.—(1) Nid oes dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochr y gefnffordd cyhyd ag sy’n angenrheidiol i alluogi:

- (a) i gerbyd, os na ellir ei ddefnyddio’n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ddarn arall o ffordd, gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o’r gweithrediadau a ganlyn:
 - i. gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
 - ii. symud unrhyw rwystr i draffig;
 - iii. cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu’r gefnffordd; neu
 - iv. gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darn hwnnw o’r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw offer cyfathrebu electronig fel y’i diffinnir yn Neddf Telathrebu 1984(4);
- (b) i gerbyd gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;
- (c) i gerbyd gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y gefnffordd neu’n gyfagos iddi;
- (d) i gerbyd gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu’r heddlu; neu
- (e) i gerbyd stopio pan fo’r person sydd â rheolaeth arno’n gwneud y canlynol:
 - i. pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio; neu

(4) 1984 (p. 12). diwygiwyd Atodlen 2 gan baragraff 2(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21).

“the relevant position” has the meaning given by regulation 4 of the Local Authorities’ Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000;

“the trunk road” means the length of the A5 London to Holyhead trunk road at Pentre Du, Betws-y-Coed that extends from a point 30 metres east of the centre-point of its junction with Ffordd Gethin to a point 43 metres east of the centre-point of that junction.

Prohibition of Waiting

3. Except as provided in article 4, no person shall cause or permit any vehicle to wait at any time on the southern side of the trunk road.

Exemptions

4.—(1) Nothing in article 3 shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait on the side of the trunk road for so long as may be necessary to enable:

- (a) a vehicle, if it cannot conveniently be used for such purpose in any other length of road, to be used in connection with any of the following operations:
 - i. building, industrial or demolition operations;
 - ii. the removal of any obstruction to traffic;
 - iii. the maintenance, improvement or reconstruction of the trunk road; or
 - iv. the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to, the said length of trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in the Telecommunications Act 1984(4);
- (b) a vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;
- (c) a vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the trunk road;
- (d) a vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or
- (e) a vehicle to stop when the person in control of it:
 - i. is required by law to stop; or

(4) 1984 (c.12). Schedule 2 was amended by paragraph 2(2) of Schedule 3 of the Communications Act 2003 (c21).

- ii. pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain; neu
 - iii. pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu allan i'w reolaeth; neu
 - iv. pan fydd yn gweithredu ar gyfarwyddyd, neu â chaniatâd, cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.
- ii. is obliged to stop in order to avoid an accident; or
 - iii. is prevented from proceeding by circumstances outside his control; or
 - iv. is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

(2) Nid oes dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n dangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gofalu am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar ochr y darn o'r gefnffordd am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, a bod awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw â chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar ochr y gefnffordd.

(2) Nothing in article 3 shall render it unlawful to cause or permit a disabled person's vehicle which displays in the relevant position a disabled persons badge and a parking disc (on which the driver, or other person in charge of the vehicle, has marked the time at which the period of waiting began) to wait on the side of the trunk road for a period not exceeding 3 hours, being a period separated by an interval of at least one hour from a previous period of waiting by the same vehicle on the same day on the side of the trunk road.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dyddiedig

18 Gorffennaf 2017

Dated

18 July 2017

Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

Nina Ley
Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (FFORDD
CAERGYBI, PENTRE-DU, BETWS-Y-COED,
BWRDEISTREF SIROL CONWY) (GWAHARDD
AROS) 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 21 Gorffennaf 2017.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd aros ar unrhyw adeg ar ochr ddeheuol y darn o gefnffordd yr A5 o'r enw Ffordd Caergybi, Pentre-du, Betws-y-coed, Conwy sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gethin hyd at bwynt 43 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 19 Gorffennaf 2017 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Llanrwst, Plas yn Dre, Ffordd yr Orsaf, Llanrwst, Conwy LL26 0DF neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1287908.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiyndu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

- a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 18 Gorffennaf 2017, wneud cais i'r Uchel Lys am atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2017).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A5 TRUNK ROAD (HOLYHEAD ROAD,
PENTRE DU, BETWS-Y-COED, CONWY
COUNTY BOROUGH) (PROHIBITION OF
WAITING) ORDER 2017**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1) and (2) and 4(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 21 July 2017.

The effect of the Order is to prohibit waiting at any time on the southern side of the length of the A5 trunk road known as Holyhead Road, Pentre Du, Betws-y-coed, Conwy that extends from a point 30 metres east of the centre-point of its junction with Ffordd Gethin to a point 43 metres east of the centre-point of that junction.

During a period of 6 weeks from 19 July 2017, a copy of the Order and plan may be inspected during normal opening hours at Llanrwst Library, Plas yn Dre, Station Road, Llanrwst LL26 0DF or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1287908.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

- a. that it is not within the relevant powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or
- b. that any of the relevant requirements have not been complied with,

that person may, within 6 weeks of 18 July 2017, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2017).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government